

AMGUEDDFA CYMRU

Beth Yw Bylbcast?

Mae Bylbcast yn gystadleuaeth newydd i ysgolion sy'n cymryd rhan yn Ymchwiliad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion!

Rhannwch eich profiad o fod yn rhan o'r project a gadewch i ni glywed am eich hoff rannau.

A bydd cyfle i ennill gwobr arbennig ar gyfer eich dosbarth!

Bydd Angen

- Camera, ffôn neu dabled i recordio eich fideo
- Meddalwedd i olygu'ch fideo (gallwch ddefnyddio rhaglenni am ddim fel Capcut neu Canva)
- Ffurflen ganiatâd ar gyfer pawb sydd yn eich fideo (gallwch ddefnyddio'r templed ar ddiwedd yr adnodd hwn)

Beth ni ei wneud?

Rydyn ni eisiau i chi greu fideo byr sy'n tua 30 eiliad. Yn y fideo, dylech chi sôn am beth ydych chi wedi'i fwynhau am y project hyd yn hyn. Gallai hynny fod yn:

- enwi eich bylbiau
- y diwrnod plannu
- mesur eich planhigion
- cofnodi'r tywydd

...neu unrhyw ran arall o'r project rydych chi wedi'i fwynhau. Cyn belled bod eich fideo am Fylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion, rydyn ni eisiau ei weld!

Rydyn ni'n croesawu fideos yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg.

Edina Trust Bulb Project

amgueddfa.cymru/dysgu/bylbiaur-gwanwyn-i-ysgolion

Sut YdYn ni'n gwneud hYn?

1 Rhannwch yn grwpiau i weithio ar eich fideo. Gallwch rannu un fideo ar gyfer pob grŵp.

2 Sgwrsiwch am beth wnaethoch chi ei fwynhau am y project, yna dewiswch beth i gynnwys yn y fideo.

3 Meddyliwch am beth fydd ei angen arnoch chi ar gyfer eich fideo. Fyddwch chi angen ffilmio eich hun neu'ch planhigion? Neu oes gennych chi luniau rydych am eu rhoi mewn sioe sleidiau gyda throslais?

4 Mae'n rhaid i chi sicrhau fod gennych chi ganiatâd i recordio eich gilydd. Mae'n bosibl y bydd gan eich athro ffurflen ganiatâd gan eich gwarchodwyr eisoes, ond os nad, bydd angen iddyn nhw lenwi ffurflen i roi caniatâd i chi ymddangos yn y ffilm! Mae un i chi ei defnyddio ar ddiwedd y canllaw hwn. Os nad yw eich rhieni yn rhoi caniatâd i chi, gallwch chi gymryd rhan o hyd! Gallwch chi fod yn olygydd neu gyfarwyddwr y fideo.

5 Yna bydd angen i chi ddefnyddio offer fel camera, ffôn, neu dabled i ffilmio eich fideo. Edrychwch ar yr adran Awgrymiadau am gyngor ar sut i wneud hyn!

6 Ar ôl i chi orffen ffilmio, bydd angen i chi olygu eich fideo! Gallwch chi ddefnyddio meddalwedd rhad ac am ddim fel *CapCut* neu *Canva* i wneud hyn. Mae'n bosibl y bydd gan eich ffôn neu lechen feddalwedd wedi'i osod arno hefyd! Ewch i'r adran Awgrymiadau am fwy o gyngor.

7 Unwaith rydych chi'n hapus gyda'ch fideo, rhowch o ar Twitter! Tagiwch *@Professor_Plant* a defnyddiwch yr hashnod *#Bulbcast* fel y gallwn weld eich gwaith anhygoel!

AwgrYmiadau

Dewis eich pwnc

- Cofiwch, dylai'r fideo fod yn tua 30 eiliad, felly does gennych chi ddim amser i ddweud wrthym ni am bob rhan o'ch project!
- Meddyliwch am eich hoff beth o'r Ymchwiliad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion hyd yn hyn. Mae yna lawer o bethau i'w dewis, felly ceisiwch ganolbwyntio ar un rhan wnaethoch chi ei mwynhau.

Ffilmio eich fideo

- Pan mae'n amser fflimio, mae wastad yn syniad cael ambell i ymarfer gyntaf!
- Os ydych chi'n ffilmio eich ffrindiau, ydyn nhw yn y ffrâm yn llawn?
- Os ydyn ni'n eich gwylio yn plannu neu'n mesur, allwn ni weld beth rydych chi'n ei wneud?
- Mae'n werth gosod eich camera ar rywbeth fflat hefyd, fel bod y fideo ddim yn ysgwyd gormod. Gallwch chi ddefnyddio pethau fel llyfrau neu focsys i gadw'r camera yn ei le yn hytrach na'i afael yn eich dwylo.
- Mae'r rhan fwyaf o lwyfannau fideos byr ar ffurf portread yn awtomatig, felly ffilmio'r ffordd honno fyddai orau.

Golygu eich fideo

- Os ydych chi'n defnyddio Canva, mae'r rhestr chwarae YouTube hon yn lle da i ddysgu sut!
- Os ydych chi'n defnyddio CapCut i olygu eich fideo, dyma gyfres dda o fideos sy'n rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch.
- Os oes gennych chi olygydd fideo rydych chi'n hoffi ei ddefnyddio eisoes, defnyddiwch hwnnw gyntaf. Mae defnyddio eich gwybodaeth wastad yn syniad da!



Rhannu eich gwaith

- Pan rydych chi'n uwchlwytho eich fideo, cofiwch dagio @Professor_Plant a #Bulbcast

Nodiadau i athrawon

Nod yr her

Yn yr her hon, rydyn ni eisiau annog disgyblion i ddefnyddio eu sgiliau digidol a sgiliau cyflwyno, ac i gydweithio fel grŵp.
Bydd disgyblion yn gallu gweld y project o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys:

- Trafod syniadau a phenderfynu ar un
- Cynllunio eu gwaith
- Cyfathrebu beth sydd ei angen arnyn nhw i gwblhau eu fideo
- Cydweithio i sefydlu rolau fel cyflwynwyr, person camera, ac ati
- Deall fod angen caniatâd arnyn nhw i recordio pobl
- Recordio a golygu fideo
- Rhoi'r fideo ar Twitter

Dyddiad cau i gofrestru a gwobrau'r her

Mae'r gystadleuaeth yn cau ar 22 Mawrth, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cael eich ceisiadau i mewn cyn hynny!
Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi'r wythnos o 15 Ebrill.
Bydd y grŵp buddugol yn derbyn camera vTech i'w ddefnyddio yn yr ysgol, a bydd gwobr hefyd i'r ysgol sy'n dod yn ail!

Manylion cyswllt

Os ydych chi'n cael unrhyw drafferthion neu fod gennych chi unrhyw gwestiynau, gallwch chi anfon e-bost atom ni:

scan@amgueddfacymru.ac.uk

Rhowch 'Bylbcast' yn y teitl - rydyn ni'n derbyn llawer o e-byst, felly bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ni weld eich neges ac ymateb iddi!



Ffurflen ganiatad

Rwy'n rhoi caniatâd i Amgueddfa Cymru ac Ymddiriedolaeth Edina ddefnyddio ffotograffau a fideo o fy mhlentyn yn eu chyhoeddiadau yn ei chyhoeddiadau hyrwyddo, gan gynnwys mewn print ac ar-lein (e.e. mewn adnoddau, e-byst, ar eu gwefannau ac ar gyfryngau cymdeithasol).

Enw:

Ysgol:

Cyfeiriad:

Llofnod:

Dyddiad: